**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED HARLECH A GYNHALIWYD YN YR HEN LYFRGELL, HARLECH A DROS ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH 02.03.26**

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Ceri Griffiths.

**PRESENNOL**

Cyng. Christopher Braithwaite (Cadeirydd), . James Maxwell (Is-Gadeirydd), Reg Chapman, Edwina Evans, Wendy Williams, Mark Lewis, Simon Turner, Giles Bentham, Martin Hughes, Tegid John, a'r Cyng. Annwen Hughes a Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd).

'Roedd 3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol dros zoom ag 3 yn yr ystafell ar gychwyn y cyfarfod.

**Cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd**

Gofynodd Mrs J. Cole a fyddai yn iawn iddynt archebu mwy o'r pabi coch mawr oherwydd bod amryw wedi cael eu difrodi yn y tywydd garw y llynedd ag I'r Cyngor eu ad-dalu. Cytunwyd byddai y Cyngor yn archebu mwy o'r pabi coch mawr eu hunain.

**CYHOEDDIADAU Y CADEIRYDD**.

Datganodd y Cadeirydd ei bod hi wedi bod yn fis prysur unwaith eto ag ei fod wedi bod yn cael prisiau am offer newydd yn cae chwarae Brenin Sior V ag hefyd wedi cael cyfarfod gyda'r Is-Gadeirydd i drafod gwahanol faterion.

**COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Chwefror 2il 2026 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion.

**DATGAN BUDDIANT**

Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Datganodd y Cyng. Simon Turner ddiddordeb yn y mater i wneud gyda HAL
Ni lofnodwyd Dogfen Datgan Buddiant Personol ganddynt am eu bod wedi gwneud hyn yn barod yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a bod y diddordeb yn y mater hwn yn rhedeg yn barhaol.
Datganodd y Cyng. Reg Chapman ddiddordeb yn y mater i wneud gyda chais ariannol yr Hen Lyfrgell
Datganodd y Cyng. Martin Hughes ddiddordeb yn y mater i wneud gyda chais ariannol yr Hen Lyfrgell
Datganodd y Cyng. Edwina Evans ddiddordeb yn y mater i wneud gyda chais ariannol yr Hen Lyfrgell a'r Neuadd Goffa
Datganodd y Cyng. James Maxwell ddiddordeb yn y mater i wneud gyda chais ariannol yr Hen Lyfrgell a'r Neuadd Goffa

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Fe dderbyniwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Annwen Hughes – adroddwyd ei bod wedi derbyn sawl cwyn bod ceir yn mynd o amgylch maes parcio Min y Don yn oriau man y bore ag 'roedd wedi cael gair gyda'r Heddlu ynglyn a hyn, 'roedd yn falch o weld bod lloches bws newydd wedi cael ei osod o flaen y toiledau ger y Queens a mae hwn wedi cael ei osod gan Traws Cymru a maen't yn gobeithio gosod un newydd ger groesffordd Pen yr Hwylfa yn ystod y flwyddyn ariannol nesa. 'Roedd wedi mynychu sawl seminar ariannol gyda'r Cyngor ag fydd cyfarfod y Cyngor Llawn dydd Iau yn trafod treth y Cyngor fydd o bosib yn cael ei gosod ar 5.1% am y flwyddyn ariannol nesa.
Adroddodd y Cyng. Gwynfor Owen bydd treth y Cyngor yn llai gan Gyngor Gwynedd nag amryw o Gynghorau eraill, bod amryw o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal i drafod yr adroddiad CPR, 'roedd Estyn yn ysgol Hafod Lon ag 'roedd wedi cael ei holi ganddynt fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, 'roedd wedi cael sawl cwyn ynglyn a ymddygiad gwrth

gymdeithasol yn yr ardal ag oherwydd bod yr Heddlu lleol wedi cario allan ymchwiliad i gyflymder gyrrwyr mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwyddion camerau i fyny. Am bod ymgyrch wedi cael ei gychwyn i gael cofeb i Catrin, merch Owain Glyndwr 'roedd wedi rhoid cyfweliad teledu ynglyn a hyn. 'Roedd etholwr wedi gofyn iddo ddatgan bod angen offer i blant anabl yn cae chwarae Brenin Sior a datganwyd bod y Cyngor yn cefnogi unrhyw geisiadau ag y byddant yn ymgynghori gyda Joe Patton a Rhian Corps.

**MATERION YN CODI**

**Cynllun Cyllideb**

Adroddwyd bod £68,660.01 (a oedd yn cynnwys costau banc) wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £32,599.49 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn 2025/26.

**HAL - CIC**

Cafwyd yr adroddiad canlynol gan y Cyng. Reg Chapman ynglyn ar sefyllfa diweddaraf i wneud gyda HAL – bod y CIC yn ei ffurf drafft terfynol, bod Visit Wales yn rhoid £25k tuag at dalu costau cyfreithiol, bod cyfarfod o'r Bwrdd wedi cael ei gynnal ar y 26ain o fis diwethaf a bod un aelod wedi ymddiswyddo.

**Llwybr Natur Bron y Graig**

Datganodd y Cyng. James Maxwell bod ddim llawer i'w drafod ynglyn ar uchod a cytunwyd i adael y mater tan cyfarfod nesa y Cyngor.

**Tir Dysgu Oedolion Cymru**

Datganodd y Cyng. James Maxwell bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Kompas Housing ar y 23ain o fis diwethaf er mwyn trafod adeiladu tai ar ochor y Coleg o'r tir hwn a byddai hyn wedyn yn dod i mewn i Gynllun Datblygu Lleol Eryri. Hefyd 'roeddynt wedi bod yn edrych ar safle yr Hen Ysgol.

**Cae Chwarae Brenin Sior a Llyn y Felin**

Datganwyd bod angen cael y darn tir sydd wedi cael ei ffensio allan gan y clwb rygbi yn nol i ddefnydd er mwyn galluogi edrych am grantiau. Datganodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn 3 pris i osod cylchfan gynhwysol yn cae chwarae Brenin Sior a bod y tri bris yn agos iawn at eu gilydd. Nid oedd wedi derbyn prisiau am osod siglen i'r anabl. Cytunwyd ar ol trafodaeth i archebu cylchfan gynhwysol a board OXO gan gwmni G. L. Jones, Bethesda. Hefyd cytunwyd bod angen cysylltu gyda Un Llais Cymru ynglyn a cae chwarae Brenin Sior fel elusen a Chyngor Cymuned Harlech.

**Cyrsiau Hyfforddiant I Aelodau**

Datganwyd bod rhai Aelodau wedi mynychu mwy nag un cwrs hyfforddiant ond bod angen i fwy fynychu rhai yn enwedig y cwrs hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

**Is-Bwyllgorau y Cyngor**

Aethpwyd trwy pa Aelodau oedd ar y gwahanol is-bwyllgorau a cytunwyd bod y Cadeirydd yn tynnu rhestr allan o rhai i fod ar gwahanol is-bwyllgorau erbyn y cyfarfod nesa oherwydd bod rhai newydd wedi ymuno ar Cyngor.

**Cynllun Datblygu LLeol Eryri**

Datganodd y Cyng. Martin Hughes ei fod wedi mynychu cyfarfod a oedd wedi ei drefnu gan y Parc Cenedlaethol ar y 5ed o fis diwethaf i drafod yr uchod ag 'roedd wedi anfon copi o'r cyflwyniad ymlaen i bob Aelod.

**Rhandiroedd**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan Ms Paula Ireland ar ran pwyllgor y rhandiroedd yn hysbysu'r Cyngor eu bod wedi derbyn dyfynbris i dorri'r gwrych, creu ardal caled a glanhau'r twlc mochyn a hefyd hysbysodd hi'r Cyngor bod dau rhandir arall wedi'u rhentu. Hefyd, cafodd copi o'r adroddiad a ddarllenwyd gan Mr. Trefor Davies yn cyfarfod diwethaf y Cyngor. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-byst hyn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**Tudalen Gweplyfr y Cyngor**
Cytunodd pawb ei bod yn syniad da i ail gychwyn y dudalen uchod a cytunodd y Cadeirydd ofyn a fyddai modd i weinyddwr y dudalen flaenorol i drosglwyddo manylion y dudalen i'r Cyngor.

**Materion a Gynigir**
Datganodd y Cyng. Giles Bentham ei fod wedi gofyn i'r mater hwn gael ei roi ar y agenda am ei fod yn meddwl byddai yn syniad ar ddiwedd bob cyfarfod i bawb gael cyfle i ddatgan beth oedd angen bod ar agenda y Cyngor at y cyfarfod mis wedyn ag hefyd dod a unrhyw fater oedd wedi cael ei godi gan y cyhoedd i fyny.

**Rhybuddion o Gynnig**
Rhybudd o Gynnig gan y Cyng. Martin Hughes yn unol a Rheol Sefydlog 9 yn gofyn a fydd y Cyngor yn derbyn cofnodion drafft o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ddydd Llun 23ain Chwefror ac yn ystyried unrhyw argymhellion yn y Cofnodion hynny. 'Roedd pob Aelod yn cytuno hefo'r rhybudd hwn ag hefyd cytunwyd bod angen ail edrych ar y Rheolau Sefydlog er mwyn cynnwys gall llai na 7 diwrnod o rybudd gael ei wneud.

Rhybudd o Gynnig gan y Cyng. Martin Hughes yn unol a Rheol Sefydlog 9 yn gofyn bod y Cyngor yn datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd, a bod grŵp o Gynghorwyr yn cael eu penodi i baratoi adroddiad i'r Cyngor ystyried yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Dylai hyn gynnwys adolygiad o'i strwythur pwyllgorau a'r defnydd o dechnoleg. Roedd pob Aelod yn cytuno hefo'r rhybudd hwn a cytunwyd bod y Cadeirydd, Is-Gadeirydd ar Cyng. Martin Hughes yn cyfarfod er mwyn gweithredu arno.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Tystysgrif Defnydd Cyfreithiol (Defnydd Arfaethedig) ar gyfer newid defnydd o dy annedd a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa (Dosbarth Defnydd C3) i dy annedd a ddefnyddir heblaw fel unig breswylfa neu brif breswylfa ac a feddiannwyd am 183 diwrnod neu lai (Dosbarth Defnydd C5) Llys Bach, Harlech (NP5/61/LUL442B)**
Cefnogi y cais hwn.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL**
Adroddodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol bod £21,410.34 yn y cyfrif rhedegol a £115,667.17 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau yn ystod y mis**

| | | |
|---|---|---|
| J. B. Pest Control | - £100.00 | – cytundeb blynyddol I ddifa play yn cae chwarae Brenin Sior V |
| J. B. Pest Control | - £100.00 | – cytundeb blynyddol I ddifa play yn cae chwarae Llyn y Felin |
| Cyngor Gwynedd | - £4,394.12 | – archebu 7 bocs trydan newydd a gosod a thynnu y goleuadau nadolig |
| Play Inspection Company | - £348.00 | – archwiliad o offer chwarae y ddau barc chwarae |
| Mr. Joe Patton | - £168.00 | - compost ar gyfer gwelyau codwyd mewn sanctaidd synhwyraidd |
| Mrs Annwen Hughes | - £882.00 | (cyflog 6 mis) + £636.58 (costau 6 mis) = £1,518.38 |
| Mr. Christian Bowater | - £252.00 | - torri gwair llwybr cyhoeddus o Llys Bach at y B4573 |
| Un Llais Cymru | - £42.00 | - hyfforddiant (Cyng. James Maxwell) |
| Mr. G. J. Williams | - £162.00 | - torri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed |
| Mr. M. J. Kerr | - £480.00 | - agor bedd y diweddar Mrs Anne Shaw |
| Cyngor Gwynedd | -£11,232.00 | – archebu 39 bocs trydan newydd |
| Eryri Arboriculture & Consultancy | -£300.00 | – archwiliad coeden yn LLwybr Natur Bron y Graig a creu adroddiad |

**Lwfansau sydd yn cael eu talu i Gynghorwyr**
Adroddodd y Trysorydd bod y Cynghorwyr oedd wedi llofnodi y ffurflen mis Ionawr 2025 yn datgan eu bod yn cymeryd y lwfans o £156 yn cael eu talu yn nawr ag fe lofnodwyd ffurflen gan y Cyng. James Maxwell, Reg Chapman, Simon Turner, Christopher Braithwaite, Tegid John a Gordon Howie. Bydd y Cynghorwyr oedd yn absenol yn cael eu talu yng nghyfarfod nesa y Cyngor.

**Ceisiadau am gymorth ariannol**

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Harlech | - £2,000.00 |
| Cyfeillion Ysgol Tanycastell | - £3,000.00 |
| Pwyllgor Hen Lyfrgell | - £1,000.00 |
| Pwyllgor Neuadd Goffa | - £1,000.00 |

Chapters Gymnastics  -  cafwyd wybod bod rhain ddim yn bodoli rhagor
Karen & Danny Ratcliffe – cytunwyd i drafod y cais ymhellach yn cyfarfod mis nesa o'r Cyngor pan fydd mwy o fanylion wedi dod i law
Sefydliad y Merched, Harlech – cytunwyd i drafod y cais ymhellach yn cyfarfod mis nesa o'r Cyngor pan fydd mwy o fanylion wedi dod i law
G & J Cole – cytunwyd i'r Cyngor archebu y pabi coch mawr eu hunain
Visit Harlech - – cytunwyd i drafod y cais ymhellach yn cyfarfod mis nesa o'r Cyngor pan fydd mwy o fanylion wedi dod i law ag hefyd gwahodd yr ymgeisydd i gyfarfod nesa y Cyngor am 7.00 o'r gloch.
CFFI Meirionnydd – dim

Fe gafodd y taliadau uchod eu prosesu gan y Cyng. Tegid John a wnaeth y Cyng. James Maxwell gymeradwyo'r taliadau ag fe roddwyd ganiatad I'r Clerc/Trysorydd I'w talu ar lein neu drwy siec ar ddiwedd y cyfarfod.

**Derbyniadau yn ystod y mis**

Cyllid a Thollad - £1,127.85 - ad-dalaid TAW
Cyngor Gwynedd - £990.35 – ad-daliad am dorri gwair y llwybrau cyhoeddus
Cyngor Gwynedd - £1,760.52 – gweddill grant cynllun Gwynedd Ni.

**Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Catrin Soraya Williams – £175.00 - gwasanaeth cyfieithu

**GOHEBIAETH**

**Un Llais Cymru**

Wedi derbyn cylchlythyr cymunedau oed gyfeillgar sydd wedi cael ei anfon ar y cyd gan Age Cymru ac Un Llais Cymru sy'n ceisio cefnogi Cynghorau Cymuned a Thref i ddeall y materion sy'n effeithio pobl hyn ac i rannu gwybodaeth ddibynadwy yn lleol. Hefyd yn datgan bod gwahoddiad i'r Cyngor fynychu sesiwn blasu a dysgu (ar lein) dydd Mawrth y 3ydd o'r mis hwn am 12.00. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Economi**

Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bydd grant ar gael i Gynghorau Cymuned drwy Cronfa Cefnogi Cymghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026 a bydd y wybodaeth lawn ynglyn ar grant dan sylw yn cyrraedd y Cyngor ddechrau mis yma. Bwriad y gronfa yw cefnogi prosiectau cyfalaf sy'n gwella gofodau cymunedol, mannau cyhoeddus ac yn cyfrannu at adfywio lleol ag yn annog i'r Cyngor ddechrau meddwl am brosiectau posib. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Cytunwyd i wahodd Steve Beech, Swyddog Cefnogi Cymunedau Meirionnydd i gyfarfod nesa y Cyngor am 7.30 o'r gloch er mwyn trafod y mater hwn ymhellach.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bod Ffordd Penllech, Harlech yn cau ar y 18ed o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar ran Dwr Cymru. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**Cyngor Gwynedd – Adran Amgylchedd**

Wedi derbyn llythyr gan yr Adran uchod yn hysbysu y Cyngor bod Ffordd Uchaf, Harlech yn cau ar yr 16eg o'r mis hwn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith ar ran Open Reach. 'Roedd y Clerc wedi anfon yr e-bost hwn ymlaen i'r Aelodau yn barod.

**Eryri Arboriculture & Consultancy**

Wedi derbyn adroddiad ynglyn a cyflwr coeden sydd yn ardd Tryfan Bron y Graig ag yn cefnu ar Llwybr Natur Bron y Graig. Adroddodd y Clerc bod y Cadeirydd wedi gofyn iddi gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol i ofyn caniatad i waith gael ei gario allan ar y goeden dan sylw. 'Roedd y Clerc wedi anfon hwn ymlaen i bob Aelod yn barod. Cytunwyd bod y Cadeirydd yn edrych i mewn os yw y goeden dan sylw ar dir Tryfan, Bron y Graig neu ar dir Llwybr Natur Bron y Graig.

**Mr. Graham Perch**
Wedi derbyn e-bost gan yr uchod yn gofyn am ganiatad y Cyngor i lanhau y Gofeb yn barod at Sul y Cofio yn mis Tachwedd. Cytunwyd i rhoid caniatad i'r gwaith hwn gael ei wneud.

**Agor Tenderau Torri Gwair**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn 3 tender ynglyn a cario allan y gwaith o dorri gwair y llwybrau cyhoeddus, cae chwarae Llyn y Felin ar fynwent gyhoeddus. Cytunwyd i dderbyn tender Mr. Meirion Griffith. Hefyd cytunwyd i dderbyn pris Mr. Gareth John Williams i dorri gwair cae chwarae Brenin Sior ar cae peldroed ag hefyd i dorri gweddill y cae. Cytunwyd i dderbyn y tender hon. Hefyd cytunwyd bod angen ail edrych ar y ffurflen dender ag i'r is-bwyllgor cyllid ei thrafod yn eu cyfarfod nesa.
**Oherwydd bod yn rhaid i'r cyhoedd adael yr ystafell pan oedd y mater uchod yn cael ei drafod cytunwyd i'w drafod ar ddiwedd y cyfarfod.**

Ar ddiwedd y cyfarfod bu i'r Aelodau aros ar ol i drafod cyflog y Clerc a nid oedd y Clerc yn bresennol.

**ARWYDDWYD...........................................**Cadeirydd

**DYDDIAD....................................................** 880